# Cofnodion cryno - Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd

Lleoliad:

**Ystafell Gynadledda 4B a thrwy Teams**

Dyddiad: Dydd Llun, 19 Chwefror 2024

Amser: 10.00 - 12.30

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau: | Bob Evans, Cynghorydd Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor<br>Ken Skates AS, Comisiynydd y Senedd ac Aelod o'r Pwyllgor<br>Menai Owen-Jones, Cynghorydd Annibynnol ac Aelod o'r Pwyllgor<br>Dr Mark Egan, Cynghorydd Annibynnol ac Aelod o'r Pwyllgor |
| Swyddogion: | Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, a'r Swyddog Cyfrifyddu<br>Siwan Davies, Dirprwy Brif Weithredwr a Chlerc a Chyfarwyddwr Busnes y Senedd (eitemau 10-20)<br>Ed Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd<br>Kate Innes, Prif Swyddog Cyllid<br>Arwyn Jones, Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu<br>Lee Glover, Cyfarwyddwr, Validera a Phennaeth Dros Dro Archwilio Mewnol (Rhan 1 - eitemau 1-12)<br>Anthony Veale, Cyfarwyddwr Gweithredol Archwilio, |

| | |
|---|---|
| | Archwilio Cymru (Rhan 1 – eitemau 1-12)<br>Kathryn Hughes, Clerc y Pwyllgor a Rheolwr Risg a Llywodraethu<br>Buddug Saer, Dirprwy Glerc y Pwyllgor<br>Matthew Richards, Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol (eitemau 10-20)<br>Leanne Baker, Prif Swyddog Dros Dro Pobl (eitemau 10-20) |
| Eraill a oedd yn bresennol: | Uzo Iwobi, Cynghorydd Annibynnol |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nododd ymddiheuriadau gan Dr Aled Eirug a Clare James, Archwilio Cymru. Rhannwyd y cyfarfod yn ddwy ran. Rhan 1: Sicrwydd a Busnes y Pwyllgor a Rhan 2: Trafodaeth Strategol. Roedd y Cadeirydd eisoes wedi nodi mai dim ond aelodau o'r Bwrdd Gweithredol fyddai'n bresennol ar gyfer rhan 2.

1.2 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 2 Cofnodion cyfarfod 27 Tachwedd 2023, y camau i'w cymryd a'r materion a gododd

*ARAC (24-01) Papur 1 – Cofnodion drafft cyfarfod 27 Tachwedd 2023*

*ARAC (24-01) Papur 2 – Crynodeb o'r camau i'w cymryd*

2.1 Cymeradwywyd cofnodion drafft cyfarfod 27 Tachwedd yn ffurfiol a byddent yn cael eu cyhoeddi ar y wefan maes o law.

2.2 Nododd y Pwyllgor y cynnydd yn erbyn y camau i'w cymryd o'r cyfarfod blaenorol a nododd un cam a fyddai wedi'i gwblhau unwaith bod y Bwrdd Gweithredol wedi cymeradwyo'r diagram ar strwythurau cynllunio corfforaethol.

## 3 Adroddiad gweithgarwch Archwilio Mewnol

*ARAC (24-01) Papur 3 – yr wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch Archwilio Mewnol*

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Lee Glover, Pennaeth Dros Dro Archwilio Mewnol, i'r cyfarfod. Yn ogystal â chyflwyno papur, rhoddodd y diweddariad a ganlyn:

- roedd y papur briffio ar gyfer yr archwiliad Llywodraethu Prosiectau a Rhaglenni wedi'i ddosbarthu i'r rheolwyr i'w gymeradwyo;
- roedd Steve Connors yn gweithio gyda chydweithwyr TGCh i bennu cwmpas yr adolygiad Seiberddiogelwch; a
- byddai strategaeth fanwl ar gyfer 2024-25 yn cael ei chyflwyno yng nghyfarfod 5 Mai.

3.2 Holodd y Pwyllgor ynghylch yr archwiliadau gohiriedig ar gyfer 2023-24 a datblygu'r Asesiad o Anghenion Archwilio.

3.3 Nododd Lee ei fod yn aros am gadarnhad o'r gyllideb ar gyfer 2024-25 a oedd wedi creu rhywfaint o oedi wrth ddatblygu strategaeth 2024-25. Nodwyd bod ymadawiad y Pennaeth Llywodraethu wedi effeithio ar waith archwilio mewnol yn ail ran y flwyddyn a bod hyn wedi lleihau'r adnoddau archwilio mewnol o fewn y Comisiwn.

3.4 Cytunodd y Pwyllgor fod penderfyniad ynghylch adnoddau yn hanfodol i barhau i ddatblygu'r strategaeth yn y dyfodol ac i sicrhau bod yr Asesiad o Anghenion Archwilio yn cael ei gynnal.

3.5 Er mwyn i Lee ddatblygu'r strategaeth yn y dyfodol, roedd Kate Innes yn rhannu gwybodaeth o'r gorffennol ag ef ac roeddent yn datblygu cynllun 3 blynedd yn lle'r amserlen flynyddol gyfredol. Byddai'r cynllun yn parhau i ystyried y gofrestr risgiau, ond pan fo lefel sicrwydd wedi'i dangos yn y gorffennol, h.y. yr archwiliadau hynny a gafodd 'sicrwydd sylweddol' yn flaenorol, gellid archwilio'r meysydd hyn yn llai rheolaidd. Gwaith ar y gweill oedd hwn a byddai'n cael ei rannu â'r Pwyllgor ar ôl i'r Bwrdd Gweithredol ei gymeradwyo.

3.6 Nododd y Cadeirydd ddiweddariad Lee a diolchodd iddo am ei waith parhaus yn y maes hwn. Roedd hefyd eisiau diolch a thalu teyrnged i Victoria Paris, Rheolwr Llywodraethu, a oedd yn gadael y Comisiwn am swydd yn Llywodraeth Cymru.

## 4 Trafod Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2024-25

*Diweddariad llafar*

4.1 Roedd cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2024-25 yn cael ei ddatblygu a byddai'n cael ei rannu â'r aelodau maes o law.

## 5 Trafod yr adroddiadau Archwilio Mewnol diweddaraf

*ARAC (24-01) Papur 4 - Adroddiad Archwilio Mewnol - Cardiau Caffael 2023-24*

5.1 Cyflwynodd Lee adroddiad archwilio blynyddol y Cardiau Caffael. Roedd yn fodlon â'r dystiolaeth a ddarparwyd a nododd un mân argymhelliad ynghylch cofnodion hyfforddi gwrth-dwyll / gwrth-lwgrwobrwyo.

5.2 Diolchodd y Pwyllgor i Lee am ei adroddiad a nododd yr argymhelliad.

5.3 Nodwyd bod archwiliad o Benodiadau Cyhoeddus yn parhau a'i fod i fod i gael ei gwblhau cyn i Vic Paris adael y Comisiwn. Cadarnhaodd Lee ei fod yn cydweithio â Vic i drosglwyddo unrhyw waith archwilio mewnol.

5.4 Cadarnhaodd Lee fod proses archwilio Validera yn ystyried effaith cydraddoldeb fel arfer da yn y gwaith yr oeddent yn ei wneud.

## 6 Yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt y gwaith o gynllunio ar gyfer archwilio cyfrifon y Comisiwn 2023-24

*ARAC (24-01) Papur 5 - cynllun archwilio amlinellol 2023-24*

6.1 Croesawodd y Cadeirydd Anthony Veale, Archwilio Cymru i'r cyfarfod. Cyfeiriodd Anthony at amserlen yr oedd ef a'i dîm yn gweithio tuag ati gyda'r gwaith archwilio terfynol yn cael ei gwblhau ym mis Mehefin 2024.

6.2 Amcangyfrifodd mai'r ffi am yr archwiliad fyddai £71,627. Roedd hyn yn gynnydd o 6.4% ar alldro y llynedd, a oedd £1,690 yn is na'r ffi gychwynnol a amcangyfrifwyd.

6.3 Nodwyd hefyd fod Archwilio Cymru yn bwriadu caffael arbenigedd allanol o ran pensiynau eto eleni a bod y broses hon ar y gweill.

6.4 Cydnabu'r Pwyllgor yr heriau parhaus o ran adnoddau yn Archwilio Cymru. Diolchwyd i Anthony am y diweddariad hwn a chroesawyd gwaith parhaus y tîm archwilio a fyddai'n cynorthwyo'r broses dros y misoedd nesaf.

6.5 Rhannodd y Cadeirydd ei siom nad oedd archwiliad interim llawn yn cael ei gynnal unwaith eto eleni, ond nododd ei bod yn ymddangos bod y cynllun profi yn

ddull synhwyrol o ymdrin ag archwiliad y Comisiwn i sicrhau ei fod yn cael ei gwblhau'n brydlon.

## 7 Adroddiad diweddaru Llywodraethu a Sicrwydd

*ARAC (24-01) Papur 6 – diweddariad Llywodraethu a Sicrwydd – Chwefror 2023*

7.1 Croesawodd Kathryn Hughes y cyfle i rannu rhai uchafbwyntiau a nodwyd yn yr adroddiad diweddaru Llywodraethu a Sicrwydd.

7.2 Er mwyn llywio'r Datganiad Llywodraethu cyffredinol, roedd sesiwn her wedi'i threfnu ar gyfer 7 Mawrth, i herio datganiadau'r Cyfarwyddwr a chraffu arnynt mewn ffordd annibynnol. Byddai Bob Evans a Mark Egan yn bresennol.

7.3 Yn dilyn cais gan y Comisiwn i fewnoli holl gontractau'r Comisiwn, roedd y Pennaeth Caffael yn arwain ymarfer i benderfynu pa mor ymarferol fyddai hyn.

7.4 Holodd y Cadeirydd ynghylch y penderfyniad i allanoli'r gwasanaeth gweinyddu pensiynau, a oedd yn cael ei gyfrifo'n fewnol ar hyn o bryd.

7.5 Yn ystod y broses gaffael ar gyfer disodli'r system Cyflogres ac Adnoddau Dynol, daeth i'r amlwg bod angen dileu'r elfen gweinyddu pensiynau fel na ellid peryglu elfennau craidd y system. Cytunwyd ar lif gwaith ar wahân a chyhoeddwyd tendr ym mis Rhagfyr 2023.

7.6 Rhoddodd Kate sicrwydd i'r Pwyllgor fod y goblygiadau llawn wedi'u dogfennu a'u derbyn gan y Bwrdd Gweithredol. Roedd hi'n ymwybodol bod y system bresennol yn risg uchel i'r Comisiwn gan ei bod yn dibynnu ar nifer o daenlenni nad oedd modd eu mudo i SharePoint oherwydd eu cyd-ddibyniaethau. Cadarnhaodd mai dim ond yr elfen cyfrifiadau budd-daliadau fyddai'n cael ei hallanoli ac y byddai'r Tîm Pensiynau yn parhau i ymdrin â'r holl ymholiadau.

7.7 Gan fod Victoria Paris ar fin gadael, roedd Arwyn Jones wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros lunio adroddiad blynyddol Comisiwn y Senedd. Roedd erthyglau ar gyfer y naratif wedi'u comisiynu a chytundeb ar yr amserlen wedi'i sicrhau.

## 8 Yr wybodaeth ddiweddaraf am gyllid

*ARAC (24-01) Papur 7 – Yr wybodaeth ddiweddaraf am gyllid*

8.1 Nododd y Pwyllgor ddiweddariad Kate a chyfeiriwyd yn benodol at y canlynol:

- Fel rhan o asesiad o brosiectau, roedd y Grŵp Rheoli Portffolio wedi sgorio 46 o brosiectau ar ddechrau 2023-24 i'w cyflawni o bosibl yn 2023-24. Sgoriwyd 14 o brosiectau fel rhai hanfodol a chawsant arian yn y gyfran gyntaf. Roedd wyth prosiect wedi'u cwblhau, roedd pump ar y gweill ac roedd un yn y cyfnod olaf ar gyfer caffael. Roedd y prosiectau hynny'n cael eu hystyried ymhellach a gellid eu rhannu'n 'ddarnau' i reoli gwariant.
- Aeth Kate i bob cyfarfod o'r Bwrdd Taliadau Annibynnol ar ran y Bwrdd Gweithredol. Rhoddodd gefndir o ran sut roedd cyllideb y Bwrdd Taliadau Annibynnol yn rhan o gyllideb gyffredinol y Comisiwn, ond cafodd ei chlustnodi i gwmpasu'r Penderfyniad. Cefnogodd y tîm Cyllid y Bwrdd Taliadau Annibynnol drwy baratoi cyfrifiadau a chostau ar gyfer eu gwaith. Cadarnhaodd hefyd y byddai rhaid ariannu unrhyw orwariant o'r Penderfyniad mewn egwyddor o gyllideb weithredol y Comisiwn.
- Roedd dyddiadau dechrau penodol o fewn recriwtio wedi sicrhau manteision ychwanegol gan gynnwys galluogi'r tîm Adnoddau Dynol i reoli llwythi gwaith a recriwtio rheolwyr i gynllunio ar gyfer eu staff newydd. Byddai dyddiadau dechrau penodol yn parhau gan fod yr amgylchedd economaidd cyhoeddus yn golygu ei bod yn ofynnol rheoli'r trosiant staff er mwyn rhyddhau £1 miliwn mewn cyllidebau staffio i gydbwyso'r gyllideb gyffredinol.

8.2 Llongyfarchodd y Pwyllgor y tîm Cyllid ar dalu cyflenwyr yn brydlon, sef mewn 3.36 diwrnod fel y cyfrifir ar hyn o bryd.

8.3 Wrth ateb cwestiwn am y dull a ddefnyddiwyd i flaenoriaethu prosiectau, eglurodd Kate mai'r Grŵp Rheoli Portffolio a sgoriodd y prosiectau. Kate sy'n cadeirio'r Grŵp hwn, mae staff o bob rhan o'r sefydliad yn aelodau ohono ac maent yn craffu ar achosion busnes ac yn argymell prosiectau i'r Bwrdd Gweithredol eu cymeradwyo ar gyfer bwrw ymlaen â hwy. Roedd meini prawf sgorio yn cynnwys gwella busnes y Senedd, cynyddu ymgysylltiad, cyflwyno strategaethau ac ati. Cydnabu Kate fod craffu ar brosiectau a'u hargymell o ran sut roeddent yn mynd yn eu blaen yn faes a oedd yn parhau i gael ei ddatblygu. Mae hyn ochr yn ochr â gwaith ynghylch deall gofynion y prosiectau hynny o ran adnoddau fel rhan o'r gwaith o gynllunio gwasanaethau.

8.4 Roedd sicrhau cyllid ar gyfer gwaith cynnal a chadw yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Gweithredol yn 2024-25, yn dilyn rhai problemau ym mis Rhagfyr a dechrau mis Ionawr.

8.5 Nododd Kate hefyd y penderfyniad gan y Bwrdd Gweithredol i ddefnyddio unrhyw weddill dros ben ar gyfer materion seilwaith critigol fel TGCh y gellid ei gyflawni cyn diwedd mis Mawrth 2024 ynghyd â phrosiectau y gellid eu tynnu ymlaen a'u cyflawni yn 2024-25.

8.6 Gofynnodd y Cadeirydd fod papur cyllideb Cynilion 2024-25 yn cael ei ddosbarthu gan fod aelodau o'r pwyllgor yn cael trafferth gyda'r linc a ddarparwyd.

8.7 Croesawodd y Pwyllgor yr wybodaeth hon.

## 9 Adolygiad Blynyddol o bolisïau cyfrifyddu

*ARAC (24-01) Papur 8 - Adolygiad Blynyddol o Bolisïau Cyfrifyddu*

9.1 Roedd yr adolygiad o newidiadau cyfrifyddu allanol wedi nodi nad oedd unrhyw newidiadau disgwyliedig i'r safonau cyfrifyddu yn y polisïau cyfrifyddu a gymhwysir gan y Comisiwn ar gyfer 2023-24. Argymhellodd archwiliad Archwilio Cymru o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn ar gyfer 2022-23 y dylid cynnal adolygiad o'r canlynol:

- Oes economaidd ddefnyddiol asedau
- Lefelau cyfalafu ar gyfer asedau
- Polisïau a phrosesau partïon cysylltiedig

9.2 O ganlyniad i'r adolygiad hwn, roedd oes asedau rhai eitemau wedi'i diwygio a byddai adolygiad yn cael ei gynnal ar adeg eu prynu.

9.3 Nododd y Pwyllgor y diweddariad hwn a'r newid arfaethedig i'r polisi Asedau.

## 10 Adroddiad yn ystod y flwyddyn ar dorri diogelwch data a'r wybodaeth ddiweddaraf am grwp yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth

*ARAC (24-01) Papur 9 - Torri Diogelwch Data*

10.1 Amlinellodd Matthew Richards, Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth, gylch gwaith grŵp yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth a sefydlwyd yn ddiweddar ac a oedd bellach â chylch gorchwyl y cytunwyd arno. Dywedodd Matthew hefyd wrth y pwyllgor ei fod yn cadeirio grŵp llywodraethu Deallusrwydd Artiffisial (AI), a bod Arwyn yn cadeirio grŵp cyfleoedd AI.

10.2 Ers mis Rhagfyr, pan oedd nodyn briffio ar dorri diogelwch gwybodaeth wedi'i rannu y tu allan i'r pwyllgor, amlygodd Matthew waith pellach a wnaed gan y tîm Llywodraethu Gwybodaeth ar broseswyr trydydd parti, a chynhyrchu cyfres o fideos hyfforddiant diogelu data gorfodol ar gyfer staff y Comisiwn, er mwyn annog mwy o bobl eto ar draws y sefydliad i gydymffurfio.

10.3 Yna, gwahoddwyd Mark Neilson, Pennaeth TGCh, i rannu rhagor o wybodaeth am ystyriaethau'r Comisiwn o'r defnydd o Microsoft Copilot a ChatGPT. Mae gwiriadau mewnol ar y gweill cyn cyfnod o brofi Copilot ar lwyfannau Bing a Microsoft.

10.4 Croesawodd y Pwyllgor y diweddariad hwn a gwahoddodd Matthew i gyfarfod yr hydref i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am grŵp yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth.

*Camau i'w cymryd*

- Matthew Richards i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am grŵp yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth yng nghyfarfod yr hydref.

## 11 Risgiau Corfforaethol

*ARAC (24-01) Papur 10 – Risgiau corfforaethol*

*ARAC (24-01) Papur 10 – Atodiad A – Crynodeb o'r Gofrestr o Risgiau Corfforaethol*

*ARAC (24-01) Papur 10 – Atodiad B – Risgiau corfforaethol a nodwyd*

11.1 Gwnaeth y Pwyllgor sylw ar nifer y risgiau a gyflwynwyd, eu bod yn fwyfwy cymhleth, a gallu'r Comisiwn i reoli rhai mor uchel eu proffil, yn enwedig o'u cymharu â mis Ionawr 2023, pan nodwyd llawer llai o risgiau ar y gofrestr.

11.2 Roedd swyddogion yn ymwybodol iawn o'r risgiau a nodwyd ar y gofrestr ar hyn o bryd, yr oedd adolygiad a thrafodaeth drylwyr wedi digwydd arnynt mewn cyfarfod diweddar o'r Bwrdd Gweithredol, felly roeddent yn gyfforddus â nifer y risgiau a'u sgôr gyfredol.

11.3 Roedd y Pwyllgor yn hyderus y byddai swyddogion yn monitro'r risgiau hyn yn agos a gofynnodd am gofrestr wedi'i diweddaru yn y cyfarfod nesaf.

## 12 Crynodeb o'r achosion o wyro

*ARAC (24-01) Papur 11 – Crynodeb o'r achosion o wyro*

12.1 Nododd y Pwyllgor un achos o wyro oddi ar y gweithdrefnau caffael arferol ac ni chodwyd unrhyw bryderon.

## 13 Arolwg o effeithiolrwydd y Pwyllgor – cynnwys ac amseriadau

*ARAC (24-01) Papur 12 – arolwg o effeithiolrwydd ac amserlen*

13.1 Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r Pwyllgor ystyried hyn y tu allan i'r pwyllgor a rhannu unrhyw sylwadau â'r tîm clercio.

## 14 Blaenraglen Waith

*ARAC (24-01) Papur 13 – Blaenraglen waith*

14.1 Trafododd y Pwyllgor y flaenraglen waith a gofynnodd am sesiwn breifat gyda'r Pennaeth Archwilio Mewnol dros dro, i'w threfnu ar gyfer cyfarfod mis Mai.

## 15 Proses y Gyllideb

15.1 Disgrifiodd Kate broses y gyllideb yn fanwl a'r amserlen ar gyfer gosod y gyllideb ym mis Medi a'r sesiynau craffu sy'n dilyn ym mis Hydref a mis Tachwedd. Eglurodd hefyd fod 2024-25 yn gyfnod pontio ac mai'r bwriad yw i gynlluniau gwasanaeth, cyd-ddibyniaethau rhwng meysydd gwasanaeth a'r fframwaith adnoddau lywio proses y gyllideb yn y blynyddoedd i ddod.

15.2 Cytunodd y Pwyllgor y dylent ganolbwyntio ar y broses o bennu'r gyllideb a chreu'r cynllun tair blynedd (cyllideb dreigl). Gellid cyflawni hyn orau drwy adolygiad blynyddol o'r cylch cyllidebol blaenorol yng nghyfarfod y Pwyllgor yn y Gaeaf.

***Camau i'w cymryd***

Y tîm clercio i ychwanegu diweddariad ar broses y gyllideb (cyllideb dreigl 3 blynedd) at y flaenraglen waith ar gyfer 2025.

## 16 Ffyrdd o Weithio – Diweddariad Corfforaethol

16.1 Rhoddodd Ed Williams ddiweddariad i'r Pwyllgor ar y rhaglen Ffyrdd o Weithio. Roedd dau risg newydd wedi'u hychwanegu at y gofrestr o risgiau corfforaethol ers cyfarfod mis Tachwedd a disgrifiodd weithgaredd parhaus Siambr 2026, Tŷ Hywel 2026 a Bae Caerdydd 2032. Roedd yn gyfnod cymhleth yn y rhaglen gan fod angen gwneud sawl penderfyniad yn gyflym wrth barhau i roi gwybod i grwpiau defnyddwyr am gynnydd.

16.2 Roedd y Llywydd yn ymgysylltu'n llawn â gweithgareddau'r rhaglen ac roedd cyfathrebu ag arweinwyr y pleidiau, grwpiau'r pleidiau a Llywodraeth Cymru yn parhau.

16.3 Nododd swyddogion awgrym y Pwyllgor bod cyfyngiad yn cael ei roi ar waith ar nifer yr Aelodau sy'n bresennol yn Siambr Tŷ Hywel pan fydd yn cael ei defnyddio pan fydd Siambr y Senedd yn cael ei haddasu, er mwyn arbed arian. Y dybiaeth gynllunio bresennol oedd y byddai lle i bob un o'r 60 Aelod o'r Senedd yn Siambr Hywel ar ôl ei haddasu.

16.4 Roedd pawb yn ymwybodol o'r sylw yn y cyfryngau y byddai pob penderfyniad yn ei ddenu yn y dyfodol ac roedd y tîm yn barod am yr her hon. Canmolodd y Pwyllgor y tîm am ymgyrch gyfathrebu yr oedd yn ymddangos ei bod yn un llwyddiannus iawn i roi cyhoeddusrwydd i ddechrau'r prosiectau adeiladu.

16.5 Gofynnodd y Pwyllgor am gael yr wybodaeth ddiweddaraf ar bob adeg allweddol a byddai diweddariad pellach yn cael ei drefnu ar gyfer cyfarfod mis Mai.

## 17 Diwygio'r Senedd – Diweddariad Corfforaethol

17.1 Arweiniodd Siwan drafodaeth ar Ddiwygio'r Senedd, a oedd yn canolbwyntio ar y risgiau gwleidyddol sy'n bodoli ar hyn o bryd, sylwebaeth ar y model diwygio, ac adnoddau ar gyfer y rhaglen gyffredinol.

17.2 Diolchodd y Pwyllgor i Siwan am drafodaeth addysgiadol a chroesawodd unrhyw ddiweddariadau rhwng cyfarfodydd.

## 18 Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu

*ARAC (24-01) Papur 14 – Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu y Chweched Senedd – Mawrth 2022*

*ARAC (24-01) Papur 15 – Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu y Chweched Senedd – Adolygiad hanner ffordd*

18.1 Roedd Menai Owen Jones eisoes wedi cytuno i weithio gydag Arwyn ar adolygiad o'r Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu hanner ffordd drwy dymor presennol y Senedd. Ar ôl trafodaeth gadarnhaol â thîm Arwyn, tynnodd Menai sylw at nifer o gyflawniadau gan nodi, ers ailstrwythuro'r gyfarwyddiaeth yn 2021, fod mwy o weithio ar y cyd wedi bod ynddi.

18.2 Yn gyffredinol, croesawodd Menai y cyfle hwn i adolygu gwaith y tîm a sylwodd ar y cydweithio gwell rhwng y tîm Cyfathrebu a'r Gyfarwyddiaeth Busnes, yn enwedig o

fewn Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth. Diolchodd i Arwyn a'r tîm am eu hamser.

18.3 Diolchodd Arwyn i Menai am ei gwaith a'i sylwadau cadarnhaol. Teimlai fod amseru'r adolygiad o fudd i'w dîm stopio ac ailedrych ar bethau, o ystyried gwaith parhaus y gwasanaeth ar y ddwy raglen fawr sydd ar y gweill ar hyn o bryd h.y. diwygio'r Senedd a Ffyrdd o Weithio, a ystyriwyd yn fusnes fel arfer i'w dîm. Nododd Arwyn hefyd fod arolwg wedi nodi nad oedd yr Aelodau wedi gweld cynnydd mewn ymgysylltiad cyhoeddus â'r allbynnau amrywiol o waith Pwyllgor, ac roedd hyn yn parhau i fod yn faes ffocws i Arwyn a'i dîm.

18.4 Daeth y Pwyllgor â'r drafodaeth i ben drwy awgrymu bod ffocws yn cael ei roi ar gyfathrebu mewnol a chytunodd i ychwanegu diweddariad ar yr adolygiad o'r Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu at y flaenraglen waith ar gyfer mis Chwefror 2025.

*Camau i'w cymryd*

- Y tîm Clercio i ychwanegu diweddariad ar y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu at y flaenraglen waith ar gyfer 2025.

## 19 Archwiliad beirniadol o un risg gorfforaethol a nodwyd neu fater amserol (effaith gwneud penderfyniadau gwleidyddol)

19.1 Cafwyd trafodaeth fer ar effaith gwneud penderfyniadau gwleidyddol ar fusnes y Comisiwn. Cytunodd y Pwyllgor i ailedrych ar yr eitem hon yng nghyfarfod mis Mai.

*Camau i'w cymryd*

- Y tîm Clercio i ychwanegu effaith gwneud penderfyniadau gwleidyddol at agenda 3 Mai.

## 20 Unrhyw Fusnes Arall

20.1 Ni chodwyd unrhyw fater arall.

Bu Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, a'r Swyddog Cyfrifyddu, ac Ed Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau, yn bresennol mewn sesiwn breifat gydag aelodau o'r Pwyllgor wedi i'r trafodion ffurfiol ddod i ben. Nid oedd unrhyw swyddogion eraill y Comisiwn yn bresennol ac ni chymerwyd cofnodion.

Mae'r cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 3 Mai 2024.